# Uned 3: Deall egwyddorion Gwyddor Pridd

**Côd yr Uned:** L/600/9579

**FfCC Lefel 3:** BTEC Cenedlaethol

**Gwerth o ran credydau:** 5

**Oriau dysgu dan arweiniad:** 30

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw cyflwyno sgiliau ymchwilio a gwybodaeth gwyddor pridd i ddysgwyr a sut gellir defnyddio'r rhain yn ymarferol. Mae wedi'i dylunio ar gyfer dysgwyr mewn canolfannau sydd am symud ymlaen i'r sector neu i addysg bellach/uwch.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae nodweddion pridd yn effeithio ar dwf a datblygiad planhigion, sydd yn eu tro yn effeithio ar nodweddion pridd. Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'r berthynas hon, sydd o bwysigrwydd sylfaenol i'r sector amgylcheddol a thir.

Bydd y dysgwyr yn archwilio, trwy arbrofion, nodweddion ffisegol a chemegol amrediad o fathau o bridd. Byddant yn dod i ddeall effaith amrediad o nodweddion pridd ar dwf a datblygiad planhigion, sy'n sylfaen ar gyfer technegau rheoli pridd. Byddant yn ymchwilio i effaith dethol planhigion ar nodweddion pridd, sy'n golygu bod modd deall egwyddorion cylchdroi cnydau.

## Deilliannau dysgu

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:**

1 Allu ymchwilio i nodweddion pridd

2 Deall sut mae nodweddion pridd yn effeithio ar dwf a datblygiad planhigion

3 Deall sut mae nodweddion pridd yn effeithio ar ddethol planhigion.

 © Pearson Education Limited 2019

## Cynnwys yr uned

### 1 Gallu ymchwilio i nodweddion pridd

*Mathau o bridd:* priddglai, clai, silt, tywod, pridd organig

*Nodweddion pridd:* priodoleddau gronynnau pridd ee clai, silt, tywod; gallu cynnal dŵr; awyriad; sefydlogrwydd; mater organig; pH; strwythur y pridd ee strwythur briwsion, meintiau agregau, cletir aredig

### 2 Deall sut mae nodweddion pridd yn effeithio ar dwf a datblygiad planhigion

*Y math o bridd a'i gyflwr:* math o bridd; cyflwr y pridd (sefydlogrwydd, argaeledd maetholion a dŵr, effeithiau defnyddio gwrtaith organig ac anorganig, pH, mater organig)

*Strwythur y pridd a draeniad:* effeithiau strwythur pridd ar blanhigion (dyfnder gwreiddio, argaeledd maetholion planhigion, draeniad, dwrlawnder)

### 3 Deall sut mae nodweddion pridd yn effeithio ar ddethol planhigion

*Dethol planhigion:* effaith amrediad o blanhigion; egwyddorion cylchdroi cnydau; dulliau amaethu gwahanol cysylltiedig â dewis planhigion, ee dulliau plannu a chynaeafu

© Pearson Education Limited 2019

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| **Meini prawf asesu a graddio** | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll1 cymharu nodweddion gwahanol fathau o bridd [YA] | | |
| Ll2 cynnal arbrofion i bennu nodweddion sampl pridd [YA, HR] | | |
| Ll3 egluro sut mae math a chyflwr pridd yn effeithio ar dwf planhigion a'u datblygiad [YA] | | |
| Ll4 egluro sut mae strwythur pridd a'r draeniad yn gallu effeithio ar dwf planhigion a'u datblygiad [YA] | T1 trafod y nodweddion pridd optimwm ar gyfer tyfu rhywogaeth benodol o blanhigion | Rh1 egluro sut gellir gwella pridd i wella twf a datblygiad planhigion. |
| Ll5 egluro sut mae technegau diwylliannol yn effeithio ar nodweddion pridd. [YA] | T2 trafod sut mae defnyddio gwrtaith organig ac anorganig yn effeithio ar gyflwr pridd. | |

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Allwedd** | YA – ymholwyr annibynnol<br>MC – meddylwyr creadigol<br>DM – dysgwyr myfyriol<br>GT – gweithwyr tîm<br>HR – hunan-reolwyr<br>CE – cyfranogwyr effeithiol |

## Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

### Cyflwyno

Wrth gyflwyno'r uned hon bydd angen asesiadau ymarferol, asesiadau ysgrifenedig, ymweliadau i weld mathau addas o bridd a bydd cysylltiadau â lleoliadau profiad gwaith diwydiannol.

Gan y bydd y dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol ac ymweliadau safle dylid rhoi pwyslais ar arferion gweithio diogel, gan gynnwys defnyddio cyfarpar amddiffyn personol (PPE), a dylid cyflawni asesiadau risg priodol.

Ar gyfer deilliant dysgu 1, bydd angen i'r dysgwyr ymchwilio i ystod o fathau o bridd a chyflawni arbrofion pridd sylfaenol o dan oruchwyliaeth i nodi nodweddion pridd gwahanol. Gallai'r rhain gynnwys ymchwilio i gyfran y tywod, silt a chlai trwy gynnal mewn dŵr, ymchwilio i allu gwahanol fathau o bridd i ddal dŵr, a phennu pH pridd.

Mae deilliant dysgu 2 yn archwilio effeithiau nodweddion pridd ar dwf a datblygiad planhigion. Gellir cefnogi hyn gyda rhai arbrofion wedi'u rheoli, lle bydd y dysgwyr yn tyfu planhigion mewn mathau gwahanol o bridd. Gellir hefyd wella cyflwyno'r canlyniad hwn drwy ymweliadau i weld gwahanol fathau o blanhigion mewn mathau gwahanol o bridd. Gallai siaradwyr arbenigol gwadd, megis gwyddonwyr pridd ac agronomegwyr, fod yn ddefnyddiol, a gallent ddisgrifio agweddau ymarferol ar reoli strwythur pridd a maeth planhigion.

Mae deilliant dysgu 3 yn trafod yr effaith y gall y dewis o blanhigyn ei gael ar nodweddion pridd. Dylai hyn gynnwys ystyried ystod o effeithiau canlyniadol dethol planhigion, er enghraifft dulliau plannu a chynaeafu, defnyddio peirianwaith, gofynion planhigion o ran maetholion atodol. Mae'n debyg y bydd y cyflwyno yn cynnwys gweithgaredd dosbarth ac ymweliadau safle, a gall uno â phrofiad gwaith dysgwyr. Byddai siaradwr gwadd, yn enwedig un sy'n gallu trafod buddion cylchdroi cnydau, yn rhoi mwy o ddiddordeb i'r cyflwyno.

### Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae’r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai’n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni’r deilliannau dysgu. **Mae’n ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni’r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys yr asesiad) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
|---|
| Rhagarweiniad i'r uned |
| **Aseiniad 1: Arbrofion Pridd** (Ll1, Ll2)<br>Cyflwyniad i'r pwnc a'r brîff |
| Gwaith labordy ymarferol: archwilio mathau o bridd |
| Theori: dosbarthu a chategoreiddio pridd |
| Gwaith ymarferol ac asesiadau yn y labordy: priodoleddau pridd |
| Ymchwil annibynnol/cefnogaeth tiwtor/cwblhau aseiniad |

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
| --- |
| **Aseiniad 2: Effaith Pridd ar Dwf Cnydau** (Ll3, Ll4, T1, Rh1)<br>Cyflwyniad i'r pwnc a'r brîff |
| Theori: yr amodau pridd mwyaf ffafriol ar gyfer tyfu planhigion ee cnydau, stoc amwynder, gwair |
| Gweithgaredd dosbarth: effaith mathau, strwythur a draeniad pridd ar dwf planhigion |
| Siaradwr gwadd – rheoli pridd i wella twf planhigion |
| Gweithgaredd dosbarth: effaith cyflwr pridd ar dwf planhigion |
| Ymweliad i weld gwahanol blanhigion a mathau o bridd |
| Ymchwil annibynnol/cefnogaeth tiwtor/cwblhau aseiniad |
| **Aseiniad 3: Effaith ar Gnydau** (Ll5, T2)<br>Cyflwyniad i'r pwnc a'r brîff |
| Theori: egwyddorion cylchdroi cnydau, rhesymau dros beidio bod ag angen cylchdroi |
| Gweithgarwch dosbarth: effaith defnyddio gwahanol beiriannau ar bridd |
| Theori: effaith gwahanol fathau o blanhigion ar bridd |
| Ymchwil annibynnol/cefnogaeth tiwtor/cwblhau aseiniad |
| Adolygu'r uned |

## Asesu

I lwyddo, rhaid i'r dysgwyr fodloni pob un o'r pum maen prawf llwyddo.

Ar gyfer Ll1, rhaid i'r dysgwyr gymharu ystod o briddoedd, fel a nodir yng nghynnwys yr uned. Gallai'r dystiolaeth asesu fod yn adroddiad am fathau o briddoedd, neu'n daflen neu'n boster wedi'i anodi, ond byddai'n fwyaf perthnasol o'i gysylltu â'r arbrofion pridd ymarferol angenrheidiol ar gyfer Ll2.

Ar gyfer Ll2, mae angen i'r dysgwyr gyflawni amrediad o arbrofion ar wahanol fathau o bridd. Dylai hyn gynnwys o leiaf ddau arbrawf gwahanol a thri phridd cwbl wahanol. Dylai'r arbrofion hyn gael eu cynnal o dan oruchwyliaeth, a chyda'r pwyslais dyledus ar iechyd a diogelwch.

Ar gyfer Ll3 a Ll4, mae angen i'r dysgwyr egluro sut mae nodweddion pridd yn effeithio ar dwf a datblygiad planhigion. Ar gyfer Ll3, y nodweddion yw math a chyflwr y pridd, ac ar gyfer Ll4, strwythur y pridd a'r draeniad. Byddai'n ddefnyddiol defnyddio un darn o dystiolaeth asesu ar gyfer y ddau faen prawf, a gallai fod yn astudiaeth achos, yn adroddiad ysgrifenedig neu'n gyflwyniad. Dylai'r dystiolaeth gynnwys effeithiau pridd ar o leiaf ddau gyltifar planhigion gwahanol, er enghraifft gwraidd-gnwd a grawn. Gall y tiwtor ddewis y rhain neu gellir cytuno arnynt wedi trafodaeth gyda'r dysgwyr.

Ar gyfer Ll5, mae angen i'r dysgwyr egluro sut gall y dewis o blanhigyn ar safle penodol effeithio ar nodweddion pridd. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf astudiaeth achos, adroddiad ysgrifenedig, poster wedi'i anodi neu gyflwyniad.

I gyflawni teilyngdod rhaid i'r dysgwyr fodloni'r ddau faen prawf teilyngdod yn ogystal â bodloni'r meini prawf llwyddo'n llwyr. Ar gyfer T1, mae angen i'r dysgwyr drafod yr amodau pridd optimwm ar gyfer tyfu rhywogaeth planhigyn penodol.

Yn ddelfrydol dylai hyn fod yn dystiolaeth estynedig o Ll3 a Ll4.

Ar gyfer T2, mae angen i'r dysgwyr drafod effaith defnyddio gwrtaith organig ac anorganig ar nodweddion pridd. Yn ddelfrydol dylai hyn fod yn dystiolaeth estynedig o Ll5.

I gyflawni rhagoriaeth, rhaid i'r dysgwyr fodloni'r meini prawf rhagoriaeth yn ogystal â bodloni'r meini prawf llwyddo a theilyngdod yn llwyr.

Ar gyfer Rh1, mae angen i'r dysgwyr ddangos eu bod wedi defnyddio'u gwybodaeth am nodweddion pridd ymhellach, trwy drafod sut gellir gwella pridd i wella twf planhigion. Yn ddelfrydol dylai hyn fod yn dystiolaeth estynedig o T1.

## Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2 | Arbrofion Pridd | Cyflawni'r arbrofion a nodwyd gan eich tiwtor ar y mathau o bridd a ddewiswyd. Wedi cyflawni eich arbrofion, ysgrifennwch eich canlyniadau, gan gynnwys eich casgliad am nodweddion y samplau pridd a ddewiswyd, a disgrifiad o brif nodweddion amrediad o fathau o bridd. | Arbrofion o dan oruchwyliaeth<br>Adroddiad ysgrifenedig |
| Ll3, Ll4, T1, Rh1 | Effaith pridd ar dwf cnydau | Ar gyfer y rhywogaeth planhigyn a ddewiswyd, trafodwch sut mae nodweddion pridd yn effeithio ar dwf a datblygiad. Rhowch yr amodau pridd mwyaf ffafriol ar gyfer twf planhigion yn eich adroddiad. Eglurwch sut gellir gwella pridd i ddarparu'r amodau optimwm hyn ar gyfer twf. | Adroddiad ysgrifenedig |
| Ll5, T2 | Effaith ar Gnydau | Paratowch gyflwyniad llafar ar y rhesymau dros gylchdroi cnydau. Yn eich cyflwyniad, dylech gynnwys effaith tri chnwd gwahanol ar nodweddion pridd, ac effaith gwrtaith organig ac anorganig ar gyflwr pridd. | Cyflwyniad llafar gyda nodiadau atodol |

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| **Lefel 2** |
|---|
| Cyflwyniad i Fioleg Anifeiliaid a Phlanhigion |
| **Lefel 3** |
| Cyflawni Prosiect Ymchwilio i'r Sector Tir |
| Cyflawni ac Adolygu Profiad Gwaith yn y Diwydiannau Tir |

## Adnoddau hanfodol

Bydd ar y dysgwyr angen mynediad at ystod o samplau pridd, yn dangos gwahanol fathau o bridd a phriodoleddau. Hefyd bydd arnynt angen cyfarpar gwyddor pridd priodol i gwblhau arbrofion pridd.

Rhaid bod adnoddau llyfrgell a'r rhyngrwyd ar gael er mwyn ymchwilio a chyfeirio atynt.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Bydd angen i'r dysgwyr astudio'r mathau o blanhigion sydd fwyaf perthnasol i'w maes galwedigaethol. Byddai cynnwys cyflogwyr yn fuddiol, o ran rhoi mynediad i safleoedd sy'n tyfu cnydau gwahanol mewn mathau gwahanol o briddoedd, ac fel siaradwyr gwadd.

## Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau


Ashman M a Puri G – *Essential Soil Science* (Blackwell Science, 2008) ISBN 978-0632048854

Davies B, Eagle D a Finney B – *Soil (Resource Management Series)* (Farming Press, 2002) ISBN 978-0852365595

Green N P O, Stout G W a Taylor D J – *Biological Science 1 and 2, 3ydd Argraffiad* (Cambridge University Press, 1997) ISBN 978-0521561785

Roberts M ac Ingram N – *Biology* (Nelson Thornes, 2001), ISBN 0748762388

Roberts M, Reiss M a Monger G – *Advanced Biology* (Nelson Thornes, 2000) ISBN 9780174387329

Soffe R – *The Agricultural Notebook, Ugeinfed Argraffiad* (Blackwell Science, 2003) ISBN 978-0632058297

White R – *Principles and practice of Soil Science* (Blackwell Science Ltd, 2005) ISBN 978-0632064557

### Cyfnodolion

*Arable Farming*
*Crops*
*Crop Science*
*Farmers Guardian*
*Farmers Weekly*
*Landwards*

### Gwefannau

| | |
|---|---|
| www.agrifor.ac.uk | |
| www.bbsrc.ac.uk | Y Cyngor Ymchwil Biodechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol |
| www.images.botany.org | |
| www.defra.gov.uk | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| www.hse.gov.uk | Y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch |
| www.lantra.co.uk | Lantra |
| www.pda.org.uk | Potash Development Association |
| www.rothamsted.ac.uk | Rothamsted Research |
| www.saps.plantsci.cam.ac.uk | Science and Plants for Schools |
| www.soils.org.uk | Cymdeithas Gwyddor Pridd Prydain |

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | cymharu nodweddion pridd<br>cyflawni arbrofion pridd<br>egluro effaith nodweddion pridd ar dwf cnydau<br>egluro effaith dethol cnydau ar bridd |
| **Hunan-reolwyr** | cyflawni arbrofion pridd |

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy ymagweddau amrywiol at ddysgu ac addysgu.

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | ymchwilio i nodweddion pridd<br>ymchwilio i berthnasoedd rhwng pridd a thwf cnydau |
| **Meddylwyr creadigol** | awgrymu arbrofion posib i'w cyflawni |
| **Dysgwyr myfyriol** | gwerthuso llwyddiant arbrofion pridd |
| **Hunan-reolwyr** | cynllunio gwaith asesu a'i gyflawni |

## Sgiliau swyddogaethol – Lefel 2

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **TGCh – Canfod a dethol gwybodaeth** | |
| Dethol a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth yn annibynnol ar gyfer tasg gymhleth | ymchwilio i nodweddion pridd<br>ymchwilio i berthnasoedd rhwng pridd a thwf cnydau |
| **TGCh – Datblygu, cyflwyno a chyfathrebu gwybodaeth** | |
| Mewnbynnu, datblygu a fformadu gwybodaeth yn annibynnol i weddu i'w hystyr a'i diben gan gynnwys:<br>● testun a thablau<br>● delweddau<br>● rhifau<br>● cofnodion | cyflwyno canlyniadau arbrofion |
| Dwyn ynghyd wybodaeth i weddu i'r cynnwys a'r diben | cyflwyno canlyniadau arbrofion |
| Cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n gweddu i'r diben a'r gynulleidfa | cyflwyno canlyniadau arbrofion |
| **Iaith** | |
| Siarad a gwrando – gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau a gwneud cyflwyniadau effeithiol mewn ystod eang o gyd-destunau | rhoi cyflwyniad llafar ar gylchdroi cnydau ac effaith dethol cnydau ar nodweddion pridd |
| Darllen – cymharu, dethol, darllen a deall testunau a'u defnyddio i gywain gwybodaeth, syniadau, dadleuon a safbwyntiau | ymchwilio i nodweddion pridd<br>ymchwilio i berthnasoedd rhwng pridd a thwf cnydau |
| Ysgrifennu – ysgrifennu dogfennau, gan gynnwys darnau ysgrifenedig estynedig, cyfathrebu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau, yn effeithiol ac yn berswadiol | cwblhau gwaith aseiniadau ysgrifenedig |